**Albert Heaney**
**Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol**
**Deputy Director General**
**Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At:
Darparwyr Cofrestredig ac Unigolion Cyfrifol
Gwasanaethau Cartrefi Gofal yng Nghymru (oedolion a phlant)
Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
Prif Weithredwyr y Byrddau Iechyd

16 Mehefin 2020

Annwyl Gyfeillion

**Y canllawiau diweddaraf ar gyfer ymweld â gwasanaethau cartrefi gofal – gorchuddion wyneb**

Byddwch yn cofio imi ysgrifennu atoch ar 5 Mehefin yn nodi'r camau yr ydym yn eu cymryd i'ch helpu i gynllunio sut y gall eich gwasanaethau wneud trefniadau diogel ar gyfer ymweliadau gan deulu a ffrindiau, wrth inni ddechrau llacio'r cyfyngiadau. Mae'r llythyr hwn ar gael yma: https://llyw.cymru/ymweliadau-i-gartrefi-gofal-ar-coronafeirws-canllawiau-i-ddarparwyr-gwasanaeth.

Ysgrifennaf atoch yn awr i roi gwybod ichi am newid yn y cyngor hwn ynghylch defnyddio gorchuddion wyneb yn ystod ymweliadau awyr agored, ar ôl i'r Prif Swyddog Meddygol gyhoeddi'r cyngor diweddaraf:
https://llyw.cymru/chief-medical-officers-advice-on-face-masks-html

Cwestiynau cyffredin ynghylch gorchuddion wyneb:
https://llyw.cymru/gorchuddion-wyneb-cwestiynau-cyffredin

Cwestiynau cyffredin ynghylch masgiau meddygol:
https://llyw.cymru/medical-masks-frequently-asked-questions

Yn unol â chyngor y Prif Swyddog Meddygol, nid yw hi'n ofynnol i ymwelwyr wisgo gorchuddion wyneb pan fyddant ar ymweliad awyr agored ac yn cadw at y pellter cymdeithasol. Bydd rhai ymwelwyr yn dewis gwisgo gorchuddion wyneb, yn enwedig os ydynt mewn grwpiau agored i niwed eu hunain, ond dewis personol fydd hynny.

Diolch i bawb sydd wedi rhoi ei farn i Arolygiaeth Gofal Cymru ynghylch sut y gallwn wneud trefniadau diogel ar gyfer cynnal ymweliadau. Rydym wrthi'n gweithio gyda'r arolygiaeth a rhanddeiliaid allweddol ar y canllawiau manylach i ymwelwyr ac yn gobeithio eu cyhoeddi yn ystod yr wythnosau nesaf. Rhoddaf wybod ichi pan fydd y ddogfen hon wedi'i chwblhau.

Yn gywir

**ALBERT HEANEY**
**Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol**

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ▪ Cathays Park
Ffon ▪ Tel 0300 025 1867
Caerdydd ▪Cardiff
CF10 3NQ
Albert.Heaney@gov.wales